# Diwygiedig Cynllun 2018-2033 Datblygu Lleol

## Fforwm Rhanddeiliaid Allweddol

## Adroddiad Adborth

13 Medi 2018

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

Cymorth Cynllunio Cymru
Ymgysylltiad y gymuned a chynllunio
Planning Aid Wales
Community engagement in planning

**Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) Diwygiedig Sir Gaerfyrddin**

**Ail Gyfarfod y Fforwm Rhanddeiliaid Allweddol - 13 Medi 2018**

**Neuadd San Pedr, Caerfyrddin**

**Trafodaethau agoriadol**

| Sylwad | Ymateb |
|---|---|
| Poblogaeth sy'n heneiddio a phobl ifanc yn gadael ardaloedd gwledig. (Mae TAN2 yn nodi y dylai pobl ifanc sydd â chysylltiadau teuluol fod yn gymwys i gael tai at anghenion lleol a safleoedd eithriedig ar gyrion aneddiadau). | Ymchwilir i hyn fel rhan o'r CDLl – mae'n her. |
| Tai i'r gymuned ffermio ifanc – mae'n anodd cael tai yn agos at ffermydd presennol. | Rydym yn ymwybodol o ffermwyr ail genhedlaeth sy'n dymuno aros ar y fferm – mae'r genhedlaeth hŷn yn dal i fod eisiau bod wrth law a helpu ar y fferm. Mae'r Pwyllgor Cynllunio yn llwyr ymwybodol o hyn wrth wneud penderfyniadau cynllunio.<br><br>Mae hefyd yn ymwybodol o anghenion ardaloedd gwledig gan gynnwys tyddynnod. Mae'r CDLl am ystyried cydbwysedd ac nid anfon twf at ardaloedd trefol yn unig.<br><br>Yn ystod proses y CDLl rhoddir sylw i'r mater o bobl ifanc yn gadael y Sir a'r tai sydd eu hangen ar deuluoedd sy'n ffermio – fodd bynnag, dim ond rhan o'r ateb fydd y CDLl ac mae angen cynnwys rhanddeiliaid eraill. Mae angen edrych yn strategol ar y materion. |

**Cyflwyniad ar y Materion, Gweledigaeth ac Amcanion Strategol -** Owain Enoch (Y Tîm Polisi)

*Darparwyd taflenni nodiadau a oedd yn cynnwys y materion, y weledigaeth a'r amcanion strategol.*

**Cyflwyniad ar yr Amcanestyniadau** Simon Clement (Y Tîm Polisi)

**Trafodaeth**

| **Sylwad** | **Ymateb** |
|---|---|
| A yw tai ychwanegol yn creu swyddi neu a oes angen i'r swyddi fod yno yn gyntaf? | Mae angen i'r swyddi fod yno i greu economi amrywiol. Mae yna all-lif o bobl ifanc 15 i 19 oed ac mae angen i ni ddenu'r bobl hyn yn ôl i'r sir. Mae yna gydbwysedd rhwng twf tai a chreu swyddi er mwyn denu'r grŵp oedran rhwng 15 a 30 oed i mewn.<br><br>O adeiladu tai cost isel, gallai hyn helpu i alluogi pobl ifanc i aros yn y Sir.<br><br>Bydd cyflogwyr yn cael eu denu i'r Sir os oes ganddynt hyder yn y potensial am dwf yn y dyfodol.<br><br>Os daw cyflogwr i'r ardal mae hyn o fudd i adeiladwyr tai lleol.<br><br>Mae amgylchedd deniadol yn denu adeiladwyr tai a swyddi. |
| A yw'r achosion presennol lle rhoddwyd caniatâd cynllunio yn cyfrif tuag at y ffigur o 500 o dai y flwyddyn? | Ydynt, ystyrir pob caniatâd sydd eisoes mewn bodolaeth ac efallai gallent gyfranni at yr angen tai dynodedig. Bydd y CDLl Diwygiedig yn gofyn am ffigur tai farchnad is o gymharu â'r CDLl blaenorol. Bydd tai a gwblheir o 1 Ebrill 2018 yn cael eu hystyried o fewn y cyfanswm sy'n ofynnol. |
| Beth am bobl sy'n gweithio yn y Sir ond yn byw y tu allan? | Mae ystadegau gwladol yn dangos y bydd pobl bob amser yn teithio i'r gwaith – os gwnawn y Sir yn un ddeniadol a manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd bydd hyn yn denu pobl i fyw a gweithio yn y Sir. Mae'r ystadegau yn dangos bod mwy o bobl yn gadael y Sir i weithio nag sydd yn dod i mewn i weithio. |
| Trefi marchnad – cau banciau, Swyddfeydd Post ac ati, yn fater. | Caiff hyn ei ystyried gan fod angen i ni annog y lefel gywir o dwf yn y trefi marchnad a'r math iawn o ddeiliadaeth. Mae angen i ni denu'r rheiny sydd wedi gadael y Sir i gael addysg, a'u denu nôl pan fydd ganddynt deuluoedd ac yn dymuno ymgartrefu yno. |

| | |
|---|---|
| Derbyniadau Coleg fel dangosydd | Cofrestrodd 3,000 o bobl ifanc 16-19 oed yng Ngholeg Sir Gâr y flwyddyn academaidd hon. Mae'r coleg yn awyddus i gadw'r myfyrwyr hyn yn yr ardal. Mae angen gwella'r agenda sgiliau. Nid yw'r CDLl yn eistedd ar ei ben ei hun ac mae angen gweithio gyda'r diwydiant adeiladu / strategaethau corfforaethol / y Fargen Ddinesig – mae angen i ni weithio gyda'n gilydd mewn ffordd gytbwys. |
| Band eang yn fater | Nid yw pobl yn gaeth i'w gweithle. Os caiff gwasanaethau gwledig eu colli, gellir defnyddio rhai gwasanaethau yma o'r cartref e.e. Bancio. Mae angen i'r CDLl fod yn hyblyg ac ystyried cynnydd technolegol a'r newidiadau yn y ffordd y mae pobl yn byw ac yn gweithio. |
| Poblogaeth sy'n heneiddio yn fater. | Mae angen i'r CDLl gynllunio ar gyfer poblogaeth sy'n heneiddio – oes angen i bolisïau'r CDLl fod yn fwy penodol? |
| Datblygwyr bach ac Adran 106 | Mae datblygwyr bach yn adeiladu ar gyfer poblogaeth sy'n heneiddio (y garfan 65-75 oed) - ond cânt eu cynnwys mewn cytundebau Adran 106 ar gyfer parciau ac ysgolion. Gall tai fforddiadwy fod ar gyfer yr henoed hefyd – nid yn unig ar gyfer pobl ifanc. Mae angen i bolisïau'r CDLl fod yn hyblyg. |
| Math o dai | Os mai'r thema yw atal pobl ifanc rhag symud allan, yna a oes angen i ni ystyried y math o anheddau a adeiledir e.e. a fyddai fflatiau yn fwy priodol? Mae angen ystyried tai yng nghanol trefi i ddenu'r poblogaethau iau - bydd tai ychwanegol yn cadw canol y trefi'n fywiog. |

**Cyflwyniad ar Ddewisiadau Gofodol** Rachel Jones (Y Tîm Polisi)

**Cyflwynwyd 6 o Ddewisiadau Gofodol i'r Fforwm**

- 1. Strategaeth bresennol y CDLl;
- 2. Seilwaith a Rhwydwaith Trafnidiaeth;
- 3. Gwasgaru;
- 4. Dan arweiniad y Gymuned;
- 5. Dylanwad Dinas-ranbarth Bae Abertawe; a
- 6. Dan arweiniad y Farchnad.

**Trafodaethau Grŵp - Dewisiadau Gofodol**

**Dewis 1**

- Nid yw Haen 2 wedi perfformio'n dda yn nhermau tai
- Cyflogaeth – yn canolbwyntio ar Llanelli
- Mae datblygwyr yn mynd lle ceir galw
- Mae pobl am fod yn agos at wasanaethau ac amwynderau
- Mae gan ddatblygwyr ddiddordeb yn y gost adeiladu
- Datblygwyr yn gwneud eu gwaith cartref ynghylch beth sy'n gwerthu / beth yw'r galw
- Mae angen adeiladu lle bydd pobl yn prynu – h.y. dan arweiniad y farchnad
- Mae angen cynnwys datblygwyr o ddechrau'r broses
- Y CDLl diwethaf – Nid oedd ganddo fforwm datblygwr – mae angen hyn
- Gorllewin Caerfyrddin – mae hyn wedi cyflawni – ond ceir anawsterau gyda gwahanol berchnogion tir
- Dechreuodd y CDLl yn 2006 – bellach mae'n wahanol iawn gyda golwg ar gallu i gyflawni

**Dewis 2**

- Dewis 2 dim yn cael ei ffafrio fel strategaeth
- Caiff seilwaith a'r rhwydwaith thrafnidiaeth eu harwain gan y galw
- Mae'n cydnabod y galw am hunan-adeiladu mewn aneddiadau llai
- Rhaid i'r CDLl fod yn ymarferol ac yn seiliedig ar dystiolaeth ac mae hyn yn "atal uchelgais"
- Mae perchnogion tir yn eistedd ar safleoedd ar gyfer eu cronfeydd pensiwn? maent yn barod i aros am newid yn y farchnad
- Mae pob dyraniad sy'n bodoli eisoes ei ail-asesu. System goleuadau traffig, llawer o goch

**Dewis 3**

*Pethau cadarnhaol*

- Mae'r datblygu yn mynd i ardaloedd na fyddant yn ei gael fel arall
- Nid mewn ardaloedd trefol yn unig
- Dewis mwy hyblyg o safleoedd
- Lleihau'r pwysau mewn ardaloedd sydd eisoes wedi gweld llawer o dwf e.e. Cross Hands

*Pethau negyddol*

- Mae gwasgaru yn dod â goblygiadau o ran cost
- Diffyg seilwaith / costau darparu seilwaith newydd
- Denni ddatblygwyr heb fod unrhyw dystiolaeth o farchnad
- Gorddibyniaeth ar geir preifat
- Mae denu mewnfuddsoddiad i gymunedau anghysbell yn anodd
- Effeithiau amgylcheddol – yr amgylchedd naturiol a hanesyddol
- Afrealistig

**Dewis 4**

*Pethau cadarnhaol*

- Tebyg i ddewis 3 – mwy crynodedig
- Bydd gan y canolfannau seilwaith ar gyfer datblygiadau mwy o faint
- Mwy o gyfle i gynnwys pobl leol – cynghorau cymuned a grwpiau diddordeb
- Llai o effaith ar yr amgylchedd
- Gwell cysylltedd
- Bydd yn lleihau'r angen i deithio

*Pethau negyddol*

- Gadael cymunedau ym mhellafoedd cefn gwlad ar ôl – eu gadael ar y cyrion
- Effaith negyddol ar yr iaith Gymraeg ond mae'n faes anodd i'w fesur – ceir ffactorau cadarnhaol a negyddol
- Efallai na fydd yn denu mewnfuddsoddiad
- Dwysedd gormodol yn y prif ganolfannau
- Afrealistig?

*Sylwadau Cyffredinol*

- Effaith gref Bae Abertawe – mae hynny'n gadarnhaol ond beth am effeithiau arall?
- Band eang / materion / cyfleoedd yn ymwneud â gweithio gartref
- Diwydiant – y lleoliadau gorau ar gyfer hyn yw'r ardaloedd traddodiadol?
- Dylanwad o Iwerddon
- Pryderon ynglŷn â'r mathau o swyddi newydd

**Dewisiadau 5 a 6**

- Canolbwyntio ar ardaloedd trefol
- Nid yw rhain yn adlewyrchu mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus a cyflogaeth mewn ardaloedd o dwf i'r un raddau a dewis 2
- O ganlyniad, mae angen adlewyrchu elfennau o ddewis 2
- Canolbwyntio ar yr ardaloedd hyn, wedi ei adlewyrchu yn y Fargen Ddinesig, i gael cyllid
- Effaith ar ganol tref Llanelli – Parc Manwerthu Trostre
- Canol trefi yn y fantol - a ydynt yn gynaliadwy?
- Nid yw Dewis 6 yn adlewyrchu anghenion cymunedau
- Dewis 5 - gallai'r cyfleoedd am gyflogaeth a chyllid newid yn ystod oes y cynllun ac efallai fydd hyn yn effeithio'r strategaeth
- Gwneud gogledd y Sir yn anghynaliadwy
- Anwybyddu rhannau gwledig y Sir a phwysigrwydd amaethyddiaeth fel sbardun economaidd
- Datblygu yn Llanelli – ni fyddai'r effeithiau yn gynaliadwy e.e. llifogydd gan fod yr un ardaloedd yn derbyn y lefel uchaf o dyfiant

**Trafodaeth cynulleidfa gyfan**

**Dewisiadau 1 a 2**

- System goleuadau traffig coch a gwyrdd ar gyfer safleoedd wedi dyrannu, cymerwch y safleoedd coch allan
- Pam ddylai fod gorfodaeth ar berchennog tir i ddatblygu?
- Adolygu rheilffyrdd segur e.e. yn Bronwydd

A yw dewisiadau 1 neu 2 yn bodloni'r weledigaeth arfaethedig?

- Dim data i benderfynu
- Dewis 1 wedi'i addasu efallai. Dewis 2 - Na
- Nid oes digon o amser wedi mynd i farnu a yw Dewis 1 wedi gweithio

**Dewisiadau 3 a 4**

- Iwerddon – effeithiau ar ôl Brexit. Llongau fferi yn colli masnach i'r gorllewin. Effaith ar Cross Hands
- Gallai datblygiadau fynd i ardaloedd lle na fyddent yn mynd fel arall – byddai'n lleihau'r pwysau mewn ardaloedd trefol

A yw dewisiadau 3 neu 4 yn bodloni'r weledigaeth arfaethedig?

- Caiff Dewis 4 ei ffafrio dros Ddewis 3

**Dewisiadau 5 a 6**

- Mae amaethyddiaeth yn rhan o gyflogaeth y Sir
- Nid yw'r dewis hwn yn ystyried gogledd y Sir
- Cyfrwng i uno'r Sir?
- Mae Dewis 6 yn anwybyddu gogledd y Sir
- Dewis 5 – efallai y bydd prosiectau eraill yn dechrau yn ystod y CDLl – nid yw'n ddewis hyblyg

A yw dewisiadau 5 neu 6 yn bodloni'r weledigaeth arfaethedig?

- Nac ydynt
- Ffefrir elfennau o Ddewis 2 a 5 yng nghysylltiad â strategaeth arall er mwyn adlewyrchu pwysigrwydd y Fargen Ddinesig yn denu mewnfuddsoddiad a phwysigrwydd mynediad i drafnidiaeth gyhoeddus a’r rhwydwaith priffyrdd

**Cymorth Cynllunio Cymru**

**Sir Gaerfyrddin - Caerfyrddin**

**Gwerthusiad Fforwm Rhanddeiliaid Allweddol holl ymatebion**

**13 Medi 2018**

**Nifer oedd yn bresennol: (15)**

## RHAN 1

***[cwblhawyd cyn y gweithdy]***

**1. Sgoriwch eich gwybodaeth am y broses gynllunio:**

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1: (gwael) | **1** | 5: (ardderchog) | **1** |
| 2: | **1** | Dim ateb: | **7** |
| 3: | **4** | | |
| 4: | **1** | | |

## RHAN 2

**(cwblhawyd ar ôl y gweithdy)**

**1. Roedd y gweithdy heddiw yn:**

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1: (gwael) | **0** | 4: (da iawn) | **2** |
| 2: (gweddol) | **0** | 5: (ardderchog) | **1** |
| 3: (da) | **5** | Dim ateb: | **7** |

**2. Sgoriwch eich gwybodaeth am y broses gynllunio**

| | |
|---|---|
| 1: (gwael) | **0** |
| 2: | **0** |
| 3: | **5** |
| 4 | **2** |
| 5: (ardderchog) | **1** |
| Dim ateb | **7** |

**3. Beth oedd fwyaf defnyddiol am weithdy heddiw?**

- Grwpiau trafod / y wybodaeth a ddarparwyd;
- Trafodaeth agored ynglŷn â materion perthnasol;
- Cyflwyniad ar boblogaeth ac amcanestyniadau aelwydydd yn Sir Gaerfyrddin;
- Trafodaethau grŵp a sesiwn adborth;
- Deall mwy am y dewisiadau sydd dan ystyriaeth a chael cyfle i ofyn cwestiynau ac i gyfrannu drwy wneud sylwadau;
- Cyfle i drafod;
- Gweld y 6 dewis.

**4. Beth oedd leiaf defnyddiol am y gweithdy?**

- Dim byd

**5. Oes gennych unrhyw faterion na chafodd eu cynnwys yng ngweithdy heddiw?**

- Dim byd penodol

**6. Sut gallai'r awdurdod lleol ymgysylltu'n well â chymunedau (math o ddigwyddiad, gweithgareddau eraill, amseru, lleoliad ac ati?)**

- Mwy o gyfarfodydd sy'n canolbwyntio ar y gymuned/dan arweiniad y gymuned mewn cymunedau
- Byddai cynnal y cyfarfod yn hwyrach na 4 yn galluogi mwy o bobl i fod yn bresennol.

**Arall**

- Cyflwyniad da drwy gyfrwng y Gymraeg sy'n rhoi cydbwysedd, cyfle hefyd i drafod yn Gymraeg mewn grwpiau.

- A oes gan y Cyngor Sir ddull masnach deg / caffael yn lleol ar gyfer darparu lluniaeth?

**Cymorth Cynllunio Cymru**

**16 Medi 2018**

***Roedd y rheiny oedd yn bresennol yn y cyfarfod fforwm hwn yn cynnwys:***

- Cyngor Tref Caerfyrddin / Cynghorau Cymuned (gwledig) – Llanddarog, Manordeilo a Salem.
- Cyngor Tref Caerfyrddin / Cynghorau Cymuned (trefol) – Cyngor Tref Caerfyrddin.
- Buddiannau'r iaith Gymraeg – Fforwm Iaith Sir Gâr – drwy gyfrwng Dyfodol a Chymdeithas yr Iaith.
- Aelodau Etholedig (drwy gyfrwng Panel Ymgynghorol y CDLl) y Cynghorwyr M Stephens ac A Lenny.
- Addysg - Coleg Sir Gâr.
- Iechyd - Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.
- Awdurdodau cyfagos – Sir Benfro a Cheredigion.
- Ymgyngoreion allweddol – Cyfoeth Naturiol Cymru ac Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed.
- Buddiannau Gwledig – Undeb Amaethwyr Cymru
- Y Diwydiant Datblygu – GRB Developments a Coastal Housing

# Cyflwyniadau / Deunydd

# Cyngor Sir Caerfyrddin
# Cynllun Datblygu Lleol

# Cyfarfod Fforwm Rhanddeiliad Allweddol
# Medi 13 2018

# Carmarthenshire County Council
# Local Development Plan

# Key Stakeholder Forum Meeting
# 13 September 2018

Planning Aid **Wales**
Cymorth Cynllunio **Cymru**

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

# Croeso & Chyflwyniadau
# Welcome and Introductions

- Trefniadau Diogelwch ac ati
- Diben a Phwysigrwydd y Fforwm Rhanddeiliaid Allweddol
- Cymorth Cynllunio Cymru a’n rôl ni
- Rheolau sylfaenol

- Housekeeping
- Purpose and Importance of the Key Stakeholder Forum
- Planning Aid Wales and our role
- Ground rules

# Rhannau o'r CDLI (1)
## Parts of the LDP (1)

- Cyd-destun Polisi, Materion ac Ysgogwyr Allweddol
- Gweledigaeth ac Amcanion Strategol
- Strategaeth a Pholisïau Strategol
- Polisïau Penodol

- Policy context, Key issues and Drivers
- Vision and Strategic Objectives
- Strategy and Strategic Policies
- Specific Policies

# Rhannau o'r CDLl (2)
# Parts of the LDP (2)

- Gweithredu a Monitro
- Map Cynigion yn cynnwys dosrannu tir a'r safleoedd
- Canllaw Cynllunio Atodol

- Implementation and Monitoring
- Proposals Map including land allocations and sites
- Supplementary Planning Guidance

# Ble rydym ni nawr?
# Where are we now?

- Cytundeb Cyflenwi
- Amserlen a Chynllun Ymrwymiad y Gymuned
- Safleoedd Ymgeisio
- Datblygu tystiolaeth
- Y Strategaeth a Ffefrir

- Delivery Agreement
- Community Involvement Scheme and Timetable
- Candidate Sites
- Development of evidence
- Preferred Strategy

# Rhan 2 – Materion

# Part 2 – Issues

# Materion Allweddol
# Key Issues

**Gweler y Daflen Ychwanegol am y rhestr llawn**
**See the Handout for the full list**

- Ffyniant
- Gwytnwch
- Iechyd
- Cydraddoldeb
- Cymunedau Cydlynol
- Diwylliant a'r Iaith Gymraeg
- Cyfrifoldeb Bydol

- Prosperity
- Resilience
- Health
- Equality
- Cohesive Communities
- Culture and Welsh Language
- Global Responsibility

# Cwestiynau

# Questions

# Gweledigaeth
# Vision

**Un Sir Gâr**

Bydd Sir Gaerfyrddin 2033 yn rhywle i ddechrau, i fyw ac i heneiddio'n dda o fewn amgylchedd iach, diogel a llewyrchus, ble mae ei hansoddau diwylliannol ac amgylcheddol cyfoethog yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu.

Bydd gan y Sir gymunedau llewyrchus, cydlynol a chynaliadwy a fydd yn darparu mwy o gyfleoedd, ymyrraethau a chysylltiadau ar gyfer pobl, lleoedd a sefydliadau yn rhannau gwledig a threfol ein Sir fel ei gilydd.

Bydd ganddi economi gref sy'n adlewyrchu ei safle fel ysgogydd hyderus ac uchelgeisiol ar gyfer Rhanbarth Dinas Bae Abertawe.

**One Carmarthenshire**

Carmarthenshire 2033 will be a place to start, live and age well within a healthy, safe and prosperous environment, where its rich cultural and environmental qualities are valued and respected.

It will have prosperous, cohesive and sustainable communities providing increased opportunities, interventions and connections for people, places and organisations in both rural and urban parts of our County.

It will have a strong economy that reflects its position as a confident and ambitious driver for the Swansea Bay City Region.

# Amcanion Strategol
# Strategic Objectives

**Gweler y Daflen Ychwanegol am y rhestr llawn**
**See the Handout for the full list**

14 Amcan Strategol yn delio â:

- Arferion Iach
- Ymyrraeth Gynnar
- Cysylltiadau Cryf
- Pobl a Lleoedd sy'n Ffynnu

14 Strategic Objectives, covering:

- Healthy Habits
- Early Intervention
- Strong Connections
- Prosperous People and Places

# Rhan 3
# AMCANESTYNIADAU

## Cyflwyniad gan Gyngor Sir Gaerfyrddin

# Part 3
# PROJECTIONS

## Presentation by Carmarthenshire County Council

# Rhan 4
# OPSIYNAU TYFIANT

# Part 4
# GROWTH OPTIONS

# Opsiynau Gofodol - Trosolwg
# Spatial Options - Overview

- Realistig
- Dilys
- Rhesymol
- Adlewyrchu tystiolaeth yn y Cynllun a'r Amcanion
- Gellir ei gyflawni
- Cydymffurfio â Pholisi Cenedlaethol
- Cyflenwi Cynlluniau / Strategaethau Rhanbarthol neu Gymdogol/Gosod Cynlluniau
- Hyblyg a Chynaliadwy

- Realistic
- Genuine
- Reasonable
- Reflect Evidence in the Plan and Objectives
- Deliverable
- Conform to National Policy
- Complement Regional or Neighbourhood Plans/Strategies/Place Plans
- Flexible and Sustainable

# Opsiynau Gofodol
# Spatial Options

- 6 opsiwn posib
- Gellir ystyried opsiynau eraill
- Gall elfennau o opsiynau gwahanol cael eu cyfuno

- 6 possible options
- Further options can be considered
- Elements of different options can be combined

# Ystyriaethau Allweddol
# Key Considerations

- Cynaliadwyedd
- Newid hinsawdd
- Amgylchedd naturiol
- Darparu tai
- Darpariaeth adwerthu
- Anghenion cyflogaeth
- Rhwydwaith trafnidiaeth
- Seilwaith


- Sustainability
- Climate change
- Natural environment
- Housing delivery
- Retail provision
- Employment needs
- Transport network
- Infrastructure

# 1: Strategaeth y CDLl Presennol
# 1 – Current LDP Strategy

- Gwasgariad o dwf i'r trefi, grwpiau o bentrefi neu clystyrau gyda'r mwyafrif yn yr aneddiadau mwyaf
- Yn adlewyrchu'r raddfa bresennol, poblogaeth ac argaeledd yr adnoddau a gwasanaethau
- Yn adlewyrchu amrywiaeth y Sir

- Dispersal of growth to towns, village groups or clusters with the majority in larger settlements
- Reflects existing scale, population and of the availability of facilities and services
- Reflects diversity of the County

# 1: Strategaeth y CDLl Presennol
# 1: Current LDP Strategy




## 2: Seilwaith a Rhwydwaith Trafnidiaeth
## 2: Infrastructure and Transport Network

- Twf ar hyd llwybrau trafnidiaeth allweddol
- Twf ble mae capasiti seilwaith
- Twf yn yr ardaloedd lle mae digon o wasanaethau ac adnoddau i gynnal y cymunedau

- Growth along key transport routes
- Growth where there is infrastructure capacity
- Growth in areas where there are sufficient services and facilities to support the communities

# 2: Seilwaith a Rhwydwaith Trafnidiaeth
# 2: Infrastructure and Transport Network




# 3: Gwasgaru
# 3: Dispersal

- Yn gwasgaru twf yn eang ar draws y Sir, yn yr ardaloedd trefol a gwledig

- Distributes growth on a broad basis across the County, both urban and rural

# 3: Gwasgaru
# 3: Dispersal




# 4: Dan Arweiniad y Gymuned
# 4: Community Led

- Yn ffocysu ar rôl aneddiadau o fewn y gymuned a'r ardal leol
- Yn cydnabod rhyngddibyniaeth a chysylltiadau rhwng aneddiadau

- Focusses on the role of settlements within their wider locality and community
- Acknowledges interdependency and connections between settlements

# 4: Dan Arweiniad y Gymuned
# 4: Community Led



# 5: Dylanwad Dinas-Ranbarth Bae Abertawe
# 5: Swansea Bay City Region Influence

- Yn canolbwyntio ar brosiectau a buddsoddiad wedi eu cynllunio yn rhan o Fargen Ddinesig Bae Abertawe ac yn sianelu twf i gydfynd â'r ardaloedd daearyddol yma


- Focusses on the projects and investment planned as part of the Swansea Bay City Deal and channels growth to align with these geographical areas

# 5: Dylanwad Dinas-Ranbarth Bae Abertawe

# 5: Swansea Bay City Region Influence

OPTION 5 DEWIS 5

Swansea Bay City Region Influence Option Dewis ar Sail Dylanwad Dinas – ranbarth Bae Abertawe




# 6: Dan Arweiniad y Farchnad
# 6: Market Led

- Yn canolbwyntio twf yn ardaloedd sydd mwyaf deniadol yn economaidd wedi ei seilio ar gyfradd datblygu’r gorffennol

- Focusses growth in areas which are the most economically attractive to develop based on past development rates

# 6: Dan Arweiniad y Farchnad
# 6: Market Led



# Agweddau Cadarnhaol a Negyddol yr Opsiynau
## Positive and Negative Aspects of Options

- Trafodaethau Grŵp
- Sesiwn Cyfarfod Llawn

- Group Discussions
- Plenary Session

# Canlyniadau a'r Camau Nesaf
# Conclusions and Next Steps

# Diolch

# Thank you

Cysylltu â'r Tîm CDLl
Contact LDP Team

Ebost / Email: blaen.gynllunio@sirgar.gov.uk
forward.planning@carmarthenshire.gov.uk
Ffôn/ Tel: 01267 228818

Cysylltu â Cymorth Cynllunio Cymru
Contact Planning Aid Wales

Ebost/ Email : info@planningaidwales.org.uk
Ffôn /Tel: 02920 625000

**Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Sir Gaerfyrddin**

**Revised Carmarthenshire Local Development Plan**

**Fforwm Rhanddeiliaid Allweddol Cyfarfod 2**

**Key Stakeholder Forum Meeting 2**

**13-09-2018**

**Taflen Ychwanegol**

**Handout**

# Materion, Gweledigaeth ac Amcanion

# Issues, Vision and Objectives

**MATERION ALLWEDDOL**

**Sir Gaerfyrddin Ffyniannus**

1 Bargen Ddinesig Bae Abertawe sydd werth £1.3 biliwn, gyda phrosiectau wedi'u nodi yn Llanelli a Chaerfyrddin.

2 Amrywiol raddau o fywiogrwydd yn ein canolfannau trefi adwerthu

3 Mae angen twf priodol mewn ardaloedd gwledig (gan gynnwys cyfleoedd am waith)

4 Economi ymwelwyr fywiog sydd â'r potensial i dyfu.

**Sir Gaerfyrddin gydnerth**

5 Peryglon llifogydd a'r heriau a gyfyd yn sgil newydd yn yr hinsawdd

6 Dynodiadau bioamrywiaeth yn amrywio o lefel ryngwladol i lefel leol.

7 Ôl troed ecolegol sydd ar hyn o bryd yn fwy na'r lefelau cynaliadwy.

8 Nodweddion tirwedd neu drefwedd cyfoethog.

**Sir Gaerfyrddin iachach**

9 Poblogaeth sy'n heneiddio.

10 Adroddwyd bod 60% o oedolion dros bwysau neu'n ordew.

11 Mae bywyd cymunedol, addysg a'r gwasanaethau cyhoeddus yn dynodi llesiant mewn ardaloedd gwledig.

12 Mae harddwch, tawelwch, mannau gwyrdd agored ac awyr iach hefyd yn cyfrannu at hapusrwydd mewn ardaloedd gwledig.

13 Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer yng Nghaerfyrddin, Llanelli a Llandeilo.

14 Newidiadau i'n Gwasanaeth Iechyd Gwladol ac unrhyw oblygiadau.

**Sir Gaerfyrddin fwy cyfartal**

15 Amddifadedd gwledig a threfol.

16 Mae mwy nag 1 ym mhob 3 o aelwydydd yn byw mewn tlodi.

17 Targed y Cyngor o ddarparu 1,000 o dai fforddiadwy.

**Sir Gaerfyrddin o gymunedau cydlynus**

18 Prinder tai newydd yn cael eu hadeiladu mewn rhai Canolfannau Gwasanaeth a Chanolfannau Gwasanaethau Lleol.

19 Prinder cyflenwad pum mlynedd o dir ar gyfer tai a'r angen am gymysgedd o dai.

20 Mae newidiadau yn yr amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd yn dynodi y bydd nifer y tai y bydd eu hangen hyd at 2033 gryn dipyn yn llai.

21 Safleoedd tai nad ydynt yn cael eu datblygu a'u gwireddu.

22 Sir o natur wledig yn bennaf lle mae 60% o'r boblogaeth yn byw mewn ardaloedd gwledig.

23 Sicrhau bod y seilwaith yn gallu cynnal datblygiadau, gan gynnwys priffyrdd.

24 Yr angen i hyrwyddo a defnyddio mathau eraill o drafnidiaeth.

25 Diffyg cyfleoedd gwaith, band eang a gwasanaethau cyhoeddus mewn ardaloedd gwledig.

26 Angen gwerthfawrogi'r ymdeimlad o le - sir o gyferbyniadau.

**Sir Gaerfyrddin â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu**

27 Adeiladau segur ledled y Sir.

28 Angen mesur effaith datblygu ar y Gymraeg.

29 Angen tai fforddiadwy yn ein cymunedau er mwyn cadw teuluoedd ifanc.

30 Safleoedd archaeolegol pwysig a nodweddion hanesyddol.

31 Y nifer uchaf o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru

**Sir Gaerfyrddin sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang**

32 Ystyriaethau cenedlaethol a rhanbarthol datblygol gan gynnwys Brexit, y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, Cynlluniau Datblygu Strategol ac adolygu Polisi Cynllunio Cymru (rhifyn 10).

33 Angen hyrwyddo effeithlonrwydd ynni mewn datblygiadau arfaethedig a'r rhai sy'n bodoli eisoes.

## Y Weledigaeth

### Un Sir Gâr

Bydd Sir Gaerfyrddin 2033 yn lle i ddechrau, byw a heneiddio'n dda mewn amgylchedd iach, diogel a ffyniannus, lle caiff ei nodweddion diwylliannol ac amgylcheddol cyfoethog eu gwerthfawrogi a'u parchu.

Bydd ganddi gymunedau ffyniannus, cydlynus a chynaliadwy a fydd yn rhoi mwy o gyfleoedd, ymyriadau a chysylltiadau i bobl, lleoedd a sefydliadau yn rhannau gwledig a threfol ein Sir.

Bydd ganddi economi gref sy'n adlewyrchu ei safle fel ysgogwr hyderus ac uchelgeisiol ar gyfer Dinas-ranbarth Bae Abertawe.

**Yr Amcanion Strategol**

**Arferion Iach - Mae gan bobl ansawdd bywyd da, ac maent yn gwneud dewisiadau iach ynglŷn â'u bywydau a'u hamgylchedd.**

| AS1 Sicrhau bod yr amgylchedd naturiol, gan gynnwys cynefinoedd a rhywogaethau, yn cael ei ddiogelu a'i wella. | |
|---|---|
| Mynd i'r afael â materion yn ymwneud â'r CDLl | 6, 7, 12, 13, 26, 32 |
| Cyraeddadwy, Amser-gyfyngedig, Mesuradwy, Penodol, Unfrydol a Synhwyrol | √ |
| Uchelgeisiol ac anelu'n uchel | √ |

| AS2 Cynorthwyo i ehangu a hyrwyddo cyfleoedd llesiant trwy fynediad i gyfleusterau cymunedol a hamdden yn ogystal â chefn gwlad. | |
|---|---|
| Mynd i'r afael â materion yn ymwneud â'r CDLl | 10, 11, 12, 15, 22, 26, 32 |
| Cyraeddadwy, Amser-gyfyngedig, Mesuradwy, Penodol, Unfrydol a Synhwyrol | √ |
| Uchelgeisiol ac anelu'n uchel | √ |

**Ymyrraeth Gynnar - Sicrhau bod pobl yn cael y cymorth iawn ar yr adeg iawn; pan fydd ei angen arnynt**

| AS3 Helpu i ehangu a hyrwyddo cyfleoedd am addysg a hyfforddiant sgiliau i bawb. | |
|---|---|
| Mynd i'r afael â materion yn ymwneud â'r CDLl | 11, 15, 16, 22, 25, 26, 32 |
| Cyraeddadwy, Amser-gyfyngedig, Mesuradwy, Penodol, Unfrydol a Synhwyrol | √ |
| Uchelgeisiol ac anelu'n uchel | √ |

| AS4 Sicrhau bod egwyddorion cyfle cyfartal a chynhwysiant cymdeithasol yn cael eu cynnal drwy hyrwyddo mynediad i wasanaethau cyhoeddus, gofal iechyd, siopau, cyfleusterau hamdden a chyfleoedd gwaith amrywiol ac o ansawdd uchel, yn ogystal â chanol trefi bywiog. | |
|---|---|
| Mynd i'r afael â materion yn ymwneud â'r CDLl | 2, 3, 9, 11, 14,16,18, 22, 25, 26, 32 |
| Cyraeddadwy, Amser-gyfyngedig, Mesuradwy, Penodol, Unfrydol a Synhwyrol | √ |
| Uchelgeisiol ac anelu'n uchel | √ |

| AS5 Diogelu a gwella'r amgylchedd adeiledig a hanesyddol a hyrwyddo'r arfer o ailddefnyddio adeiladau segur yn briodol. | |
|---|---|
| Mynd i'r afael â materion yn ymwneud â'r CDLl | 8, 26, 27, 30, 32 |
| Cyraeddadwy, Amser-gyfyngedig, Mesuradwy, Penodol, Unfrydol a Synhwyrol | √ |
| Uchelgeisiol ac anelu'n uchel | √ |

**Cysylltiadau Cryf - Pobl, lleoedd a sefydliadau y mae cysylltiad cryf rhyngddynt, sy'n gallu addasu i newid**

| AS6 Sicrhau bod egwyddorion cynaliadwyedd gofodol yn cael eu cynnal trwy gyfeirio datblygiadau i leoliadau cynaliadwy sydd â mynediad i wasanaethau a chyfleusterau, a rhoi anogaeth i ailddefnyddio tir a ddatblygwyd o'r blaen lle bynnag y bo hynny'n bosibl. | |
|---|---|
| Mynd i'r afael â materion yn ymwneud â'r CDLl | 5, 7,13, 22, 23, 26, 32 |
| Cyraeddadwy, Amser-gyfyngedig, Mesuradwy, Penodol, Unfrydol a Synhwyrol | √ |
| Uchelgeisiol ac anelu'n uchel | √ |

| AS7 Gwneud cyfraniad sylweddol tuag at fynd i'r afael ag achos newid yn yr hinsawdd ac addasu ei effeithiau, gan gynnwys hyrwyddo'r defnydd effeithlon o adnoddau a'u diogelu. | |
|---|---|
| Mynd i'r afael â materion yn ymwneud â'r CDLl | 5, 7,13, 24, 26, 32, 33 |
| Cyraeddadwy, Amser-gyfyngedig, Mesuradwy, Penodol, Unfrydol a Synhwyrol | √ |
| Uchelgeisiol ac anelu'n uchel | √ |

| AS8 Cyfrannu at ddarparu system drafnidiaeth integredig a chynaliadwy sydd ar gael i bawb, gan gynnwys cysylltiadau â dulliau trafnidiaeth amgen. | |
|---|---|
| Mynd i'r afael â materion yn ymwneud â'r CDLl | 22 ,23 , 24, 26, 32 |
| Cyraeddadwy, Amser-gyfyngedig, Mesuradwy, Penodol, Unfrydol a Synhwyrol | √ |
| Uchelgeisiol ac anelu'n uchel | √ |

**Pobl a Lleoedd Ffyniannus - Gwneud y gorau o gyfleoedd i bobl a lleoedd mewn rhannau trefol a gwledig o'n sir fel ei gilydd.**

| AS9 Diogelu a gwella cymeriad amrywiol, nodweddion unigryw, diogelwch a bywiogrwydd cymunedau'r Sir drwy hyrwyddo dull o greu lle ac ymdeimlad o le. | |
|---|---|
| Mynd i'r afael â materion yn ymwneud â'r CDLl | 8, 26, 28, 31, 32 |
| Cyraeddadwy, Amser-gyfyngedig, Mesuradwy, Penodol, Unfrydol a Synhwyrol | √ |
| Uchelgeisiol ac anelu'n uchel | √ |

| AS10 Darparu cymysgedd priodol o dai o ansawdd ledled y Sir, yn seiliedig ar egwyddorion datblygu economaidd-gymdeithasol cynaliadwy a chyfleoedd cyfartal | |
|---|---|
| Mynd i'r afael â materion yn ymwneud â'r CDLl | 3, 17, 18,19, 20, 21, 22, 23, 26,28, 29, 32 |
| Cyraeddadwy, Amser-gyfyngedig, Mesuradwy, Penodol, Unfrydol a Synhwyrol | √ |
| Uchelgeisiol ac anelu'n uchel | √ |

| AS11 Helpu i warchod, gwella a hyrwyddo'r Gymraeg a hunaniaeth ddiwylliannol unigryw'r Sir ynghyd â'i hasedau a'i gwead cymdeithasol. | |
|---|---|
| Mynd i'r afael â materion yn ymwneud â'r CDLl | 3, 17, 18, 20, 26, 28, 29, 31, 32 |
| Cyraeddadwy, Amser-gyfyngedig, Mesuradwy, Penodol, Unfrydol a Synhwyrol | √ |
| Uchelgeisiol ac anelu'n uchel | √ |

| AS12 Annog buddsoddiad ac arloesedd mewn ardaloedd gwledig a threfol trwy sicrhau darpariaeth ddigonol i ddiwallu'r angen am waith a chyfrannu ar lefel ranbarthol tuag at gyflawni Bargen Ddinesig Bae Abertawe. | |
|---|---|
| Mynd i'r afael â materion yn ymwneud â'r CDLl | 1, 2, 3, 4, 15, 16, 23, 25, 26, 32 |
| Cyraeddadwy, Amser-gyfyngedig, Mesuradwy, Penodol, Unfrydol a Synhwyrol | √ |
| Uchelgeisiol ac anelu'n uchel | √ |

| AS13 Darparu ar gyfer mentrau twristiaeth cynaliadwy o ansawdd uchel drwy gydol y flwyddyn. | |
|---|---|
| Mynd i'r afael â materion yn ymwneud â'r CDLl | 4, 25, 26, 32 |
| Cyraeddadwy, Amser-gyfyngedig, Mesuradwy, Penodol, Unfrydol a Synhwyrol | √ |
| Uchelgeisiol ac anelu'n uchel | √ |

| AS14 Adlewyrchu'r gofynion sy'n gysylltiedig â chyflwyno datblygiadau newydd, o safbwynt seilwaith caled a meddal (gan gynnwys band eang). | |
|---|---|
| Mynd i'r afael â materion yn ymwneud â'r CDLl | 23, 24, 25, 26, 32 |
| Cyraeddadwy, Amser-gyfyngedig, Mesuradwy, Penodol, Unfrydol a Synhwyrol | √ |
| Uchelgeisiol ac anelu'n uchel | √ |

## KEY ISSUES

### A prosperous Carmarthenshire

1 The £1.3 billion Swansea Bay City Deal, with projects identified in Llanelli and Carmarthen.

2 Varying vibrancy and vitality within our retailing town centres

3 Appropriate growth is needed in rural areas (including employment opportunities)

4 A buoyant Visitor economy with potential to grow.

### A resilient Carmarthenshire

5 Risks from flooding and the challenges presented by climate change

6 Biodiversity designations ranging from the international to local level.

7 An ecological footprint that is currently exceeding sustainable levels.

8 Rich landscape or townscape qualities.

### A healthier Carmarthenshire

9 An ageing population.

10 60% of adults reported as being overweight or obese.

11 Community life, education and public services indicate wellbeing in rural areas.

12 Beauty, peace and quiet, open green spaces and fresh air are also contributors to happiness in rural areas.

13 Air Quality Management Areas in Carmarthen, Llanelli and Llandeilo.

14 "Our big NHS" change and any implications.

### A more equal Carmarthenshire

15 Rural and urban deprivation.

16 Over 1 in 3 households are living in poverty.

17 Council's target to provide 1,000 affordable homes.

### A Carmarthenshire of cohesive communities

18 Lack of new homes being built in some Service Centres and Local Service Centres.

19 Lack of a five year supply of housing land and the need for a housing mix.

20 Changes in population and household forecasts indicate that significantly less homes are needed through to 2033.

21 Housing sites not being brought forward and built

22 A predominantly rural county where 60% of the population live in rural areas.

23 Ensuring infrastructure capacity can support development, including highways.

24 The need to promote and access alternative forms of transport.

25 Lack of employment opportunities, broadband and public services in rural areas.

26 Need to appreciate the sense of place – a county of contrasts.

**A Carmarthenshire of vibrant culture and thriving Welsh Language**

27 Disused buildings across the County.

28 Need to measure the impact of development upon the Welsh language

29 Need for affordable housing within our communities to retain young families

30 Important archaeological sites and historic features

31 Highest number of Welsh speakers in Wales

**A globally responsible Carmarthenshire**

32 Emerging national and regional considerations including Brexit, National Development Framework, Strategic Development Plans and the review of Planning Policy Wales (edition 10).

33 Need to promote energy efficiency in proposed and existing developments.

## The Vision

### One Carmarthenshire

Carmarthenshire 2033 will be a place to start, live and age well within a healthy, safe and prosperous environment, where its rich cultural and environmental qualities are valued and respected.

It will have prosperous, cohesive and sustainable communities providing increased opportunities, interventions and connections for people, places and organisations in both rural and urban parts of our County.

It will have a strong economy that reflects its position as a confident and ambitious driver for the Swansea Bay City Region.

## The Strategic Objectives

### Healthy Habits - People have a good quality of life, and make healthy choices about their lives and environment.

| SO1 To ensure that the natural environment, including habitats and species, are safeguarded and enhanced. | |
|---|---|
| LDP Issues addressed | 6, 7, 12, 13, 26, 32 |
| Specific Measurable Achievable Relevant and Time Bound | √ |
| Aspirational and Ambitious | √ |

| SO2 To assist with widening and promoting wellbeing opportunities through access to community, leisure and recreational facilities as well as the countryside. | |
|---|---|
| LDP Issues addressed | 10, 11, 12, 15, 22, 26, 32 |
| Specific Measurable Achievable Relevant and Time Bound | √ |
| Aspirational and Ambitious | √ |

### Early Intervention - To make sure that people have the right help at the right time; as and when they need it

| SO3 To assist in widening and promoting education and skills training opportunities for all. | |
|---|---|
| LDP Issues addressed | 11, 15, 16, 22, 25, 26, 32 |
| Specific Measurable Achievable Relevant and Time Bound | √ |
| Aspirational and Ambitious | √ |

| SO4 To ensure that the principles of equal opportunities and social inclusion are upheld by promoting access to a high quality and diverse mix of public services, healthcare, shops, leisure facilities and work opportunities, as well as vibrant town centres. | |
|---|---|
| LDP Issues addressed | 2, 3, 9, 11, 14,16,18, 22, 25, 26, 32 |
| Specific Measurable Achievable Relevant and Time Bound | √ |
| Aspirational and Ambitious | √ |

| SO5 To safeguarded and enhance the built and historic environment and promote the appropriate reuse of redundant buildings. | |
|---|---|
| LDP Issues addressed | 8, 26, 27, 30, 32 |
| Specific Measurable Achievable Relevant and Time Bound | √ |
| Aspirational and Ambitious | √ |

**Strong Connections - Strongly connected people, places and organisations that are able to adapt to change**

| SO6 To ensure that the principles of spatial sustainability are upheld by directing development to sustainable locations with access to services and facilities and wherever possible encouraging the reuse of previously developed land. | |
|---|---|
| LDP Issues addressed | 5, 7,13, 22, 23, 26, 32 |
| Specific Measurable Achievable Relevant and Time Bound | √ |
| Aspirational and Ambitious | √ |

| SO7 To make a significant contribution towards tackling the cause and adapting to the effect of climate change, including promoting the efficient use and safeguarding of resources. | |
|---|---|
| LDP Issues addressed | 5, 7,13, 24, 26, 32, 33 |
| Specific Measurable Achievable Relevant and Time Bound | √ |
| Aspirational and Ambitious | √ |

| SO8 To contribute to the delivery of an accessible integrated and sustainable transport system, including links to alternative transport methods. | |
|---|---|
| LDP Issues addressed | 22 ,23 , 24, 26, 32 |
| Specific Measurable Achievable Relevant and Time Bound | √ |
| Aspirational and Ambitious | √ |

**Prosperous People and Places - To maximise opportunities for people and places in both urban and rural parts of our county.**

| SO9 To protect and enhance the diverse character, distinctiveness, safety and vibrancy of the County's communities by promoting a place making approach and a sense of place. | |
|---|---|
| LDP Issues addressed | 8, 26, 28, 31, 32 |
| Specific Measurable Achievable Relevant and Time Bound | √ |
| Aspirational and Ambitious | √ |

| SO10 To make provision for an appropriate mix of quality homes across the County based around the principles of sustainable socio-economic development and equality of opportunities. | |
|---|---|
| LDP Issues addressed | 3, 17, 18,19, 20, 21, 22, 23, 26,28, 29, 32 |
| Specific Measurable Achievable Relevant and Time Bound | √ |
| Aspirational and Ambitious | √ |


| SO11 To assist in protecting, enhancing and promoting the Welsh Language and the County's unique cultural identity, assets and social fabric. | |
|---|---|
| LDP Issues addressed | 3, 17, 18, 20, 26, 28, 29, 31, 32 |
| Specific Measurable Achievable Relevant and Time Bound | √ |
| Aspirational and Ambitious | √ |

| SO12 To encourage investment & innovation in rural and urban areas by making adequate provision to meet employment need and to contribute at a regional level to the delivery of the Swansea Bay City Deal. | |
|---|---|
| LDP Issues addressed | 1, 2, 3, 4, 15, 16, 23, 25, 26, 32 |
| Specific Measurable Achievable Relevant and Time Bound | √ |
| Aspirational and Ambitious | √ |

| SO13 To make provision for sustainable & high quality all year round tourism related initiatives. | |
|---|---|
| LDP Issues addressed | 4, 25, 26, 32 |
| Specific Measurable Achievable Relevant and Time Bound | √ |
| Aspirational and Ambitious | √ |

| SO14 To reflect the requirements associated with the delivery of new development, both in terms of hard and soft infrastructure (including broadband). | |
|---|---|
| LDP Issues addressed | 23, 24, 25, 26, 32 |
| Specific Measurable Achievable Relevant and Time Bound | √ |
| Aspirational and Ambitious | √ |

## CYNLLUN DATBLYGU LLEOL DIWYGIEDIG GWELEDIGAETH A PHROSES



**Adain Blaen Gynllunio / Forward Planning Section**

Yr Adran Amgylchedd

Environment Department

# Amcanestyniadau Poblogaeth ac Aelwydydd Sir Gaerfyrddin

# Carmarthenshire Population and Household Projections

Cyngor Sir Gâr

Carmarthenshire County Council

# Proffil Sir Gaerfyrddin| Carmarthenshire's Profile


- Mae bron 6% o gyfanswm poblogaeth Cymru yn byw yn Sir Gaerfyrddin, sef 186,452 o bobl yn 2017.
- Ers 2001, mae'r boblogaeth wedi cynyddu gan 12,800 o bobl yn y sir, sef cynnydd o 7.4% mewn 16 blynedd.
- Cofnodwyd twf poblogaeth blynyddol uwch cyn 2008, ond twf poblogaeth blynyddol is ers 2008.
- Mae twf Sir Gaerfyrddin yn gyson â chyfradd y twf cenedlaethol, ond yn is na'r awdurdodau cyfagos, sef Abertawe a Sir Benfro.
- Mae mewnlif net o fudo mewnol wedi bod yn brif ysgogydd o ran newid yn y boblogaeth ers 2001/2002.
- Mae newid naturiol wedi cael effaith negyddol ar newid poblogaeth, gan fod nifer y marwolaethau yn uwch na nifer y genedigaethau bob blwyddyn.

- Carmarthenshire is home to approximately 6% of Wales' total population with 186,452 people as at 2017.
- Since 2001, the population has grown by 12,800 people within the county, a 7.4% increase in 16 years.
- Higher annual population growth was recorded pre-2008, with lower annual population growth since 2008
- Carmarthenshire's growth is consistent with the national rate of growth, but remains lower than the neighbouring authorities of Swansea and Pembrokeshire.
- A net inflow of internal migration has been the dominant driver of population change since 2001/2002.
- Natural change has had a negative impact on population change, with the number of deaths exceeding births in all years since 2001/2002.

Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council

# Proffil Oedran Sir Gaerfyrddin | Carmarthenshire's Age Profile

- Gwelwyd all-lif net sylweddol o ran pobl oed 15-19 yn Sir Gaerfyrddin
- Mewnlif bach o ran pobl yn y grŵp oedran 20-24 yn dychwelyd.
- Mewnlif negyddol o ran poblogaeth y grŵp oedran 25-29.
- Mae mewnlif net grŵp oedran y teuluoedd ifanc, 30-44 oed, yn debyg i'r twf yn y grŵp oedran 0-14 oed, wrth i bobl symud i Sir Gaerfyrddin naill ai i gael plant neu'n symud â'u teuluoedd.
- Cofnodir bod mewnlif net yn y garfan o bobl hŷn (65+) sy'n cyfrannu at boblogaeth Sir Gaerfyrddin sy'n heneiddio.





- Carmarthenshire has seen a large net outflow at ages 15-19
- Small return flow in the 20-24 age group.
- Small negative flow of 25-29 age group.
- The net inflow of the 30-44 young family age group is mirrored by the growth in the 0-14 year age as people move into Carmarthenshire to either have children or move with their families.
- A net inflow is recorded in the older age cohort (65+) which contributes to Carmarthenshire's ageing population.

# Amcanestyniadau o ran Poblogaeth a Mudo | Migration and population projections

- Cafodd amcanestyniadau Llywodraeth Cymru ar sail data 2006 a 2008, eu llunio yn ystod cyfnod o fudo net uchel (mewnol a rhyngwladol) a oedd yn ystyried twf sylweddol o ran poblogaeth ac aelwydydd yn Sir Gaerfyrddin.
- Cafodd yr amcanestyniadau ar sail data 2011 a 2014 eu hystyried ar ôl y dirwasgiad, ar adeg pan oedd llai o fewnfudo, a arweiniodd at dwf llawer is o ran poblogaeth ac aelwydydd yn Sir Gaerfyrddin.

- The WG 2006 and 2008-based projections were formulated during a time of high net migration (internal and international) which considered significant population and household growth for Carmarthenshire.
- The 2011 and 2014-based projections were considered post-recession and at a time when there was less in-migration which resulted in a much lower anticipated population and household growth requirement for Carmarthenshire.



# Senarios Twf Poblogaeth | Population Growth Scenarios

Modelu 6 senario twf poblogaeth

- Prif amcanestyniadau Llywodraeth Cymru ar sail data 2014
- Amcanestyniadau Llywodraeth Cymru ar gyfer mudo, 10 mlynedd ar sail data 2014
- Tymor Hir (16 blynedd o ddata mudo)
- Tymor Canolig (10 mlynedd o ddata mudo)
- Tymor Byr (data mudo y 6 blynedd diwethaf)
- Data mudo cyn y dirwasgiad


Modelu 2 senario a arweinir gan gyflogaeth

6 population growth scenarios modelled

- WG 2014 based principal projection
- WG 2014 10yr migration projection
- Long Term (16 years of migration data)
- Medium Term (10 years of migration data)
- Short Term (Last 6 years of migration data)
- Pre-Recession migration data


2 Employment-led scenarios modelled

# Senarios Twf Poblogaeth | Population Growth Scenarios




Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council

# Senarios Twf Poblogaeth - Strwythur Oedran | Population Growth Scenarios – Age Structure




Orange = *Higher* in 2033 Blue = *Lower* in 2033

Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council

# Senarios Twf Poblogaeth | Population Growth Scenarios

| | Newid 2018 – 2033 / Change 2018-2033 | | | | Cyfartaledd pob flwyddyn / Average per year | | Cyfanswm Twf Annedd / Total Dwelling Growth |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Senario / Scenario | Newid yn y poblogaeth / Population Change | Newid yn y poblogaeth / Population Change % | Newid mewn aelwydydd / Household Change | Newid mewn aelwydydd / Household Change % | Mudo Net / Net Migration | Anheddau / Dwellings | |
| PG Cyn Dirwasgiad /PG Pre-Recession | 26,811 | 14.2% | 13,616 | 16.6% | 2,028 | 969 | 14,529 |
| PG Tymor Hir / PG Long Term | 17,567 | 9.4% | 9,555 | 11.7% | 1,423 | 680 | 10,195 |
| PG 10 blwyddyn / PG 10yr | 11,755 | 6.3% | 6,992 | 8.6% | 1,043 | 497 | 7,461 |
| PG Tymor Byr / PG Short Term | 10,691 | 5.7% | 6,807 | 8.4% | 997 | 484 | 7,263 |
| LlC 2014 Mudo (cyfartalog 10 mlynedd) / WG 2014 (10yr) Average Migration | 10,842 | 5.8% | 6,322 | 7.7% | 921 | 450 | 6,746 |
| Rhagamcaniaeth LlC 2014 / WG 2014 based | 3,207 | 1.7% | 3,254 | 4.0% | 546 | 231 | 3,372 |

Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council

# Crynodeb o'r Senarios Demograffig | Summary of the Demographic Scenarios

- Mae'r holl senarios yn dangos bod lefelau mudo yn Sir Gaerfyrddin yn uwch nag amcanestyniadau Llywodraeth Cymru ar sail data 2014.
- Byddai cynnydd yn y mewnlifiad net o ran mewnfudo yn Sir Gaerfyrddin, yn y grwpiau oedran oedolion ifanc, yn ysgogi twf economaidd uwch, yn cadw'r grwpiau oedran oedolion ifanc yn y sir ac yn sicrhau demograffig cytbwys yn y boblogaeth.
- Byddai hyn yn rhoi rhagolwg cadarnhaol o ran ceisio cyrraedd y targedau a nodwyd yng Nghynllun Adfywio Strategol Sir Gaerfyrddin.
- Rhagwelir twf sylweddol yn y boblogaeth o ran y grŵp oedran 65+ ym mhob senario.
- Mae ystyried poblogaeth sy'n heneiddio yn elfen bwysig o ran y CDLl diwygiedig a'r Strategaethau Corfforaethol yn y dyfodol.

- All the scenarios show that migration levels into Carmarthenshire are higher than the WG 2014-based projection.
- Increased net migration inflows to Carmarthenshire in the young adult age groups would support higher economic growth, retain the young adult age groups and provide a balanced population demographic.
- This would provide a more positive outlook in seeking to achieve the targets outlined in Carmarthenshire’s *Strategic Regeneration Plan*.
- Population growth projected in the 65+ age groups under all scenarios.
- The consideration of an ageing population is an important element of the revised LDP and future Corporate Strategies.


# Senarios a arweinir gan Gyflogaeth | Employment – Led Scenario

| Senarios dan arweiniad cyflogaeth / Employment-led Scenarios | Newid 2018-2033 / Change 2018-2033 | | | | Cyfartaledd pob flwyddyn / Average per year | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Newid yn y poblogaeth / Population Change | Newid yn y poblogaeth / Population Change % | Newid mewn aelwydydd / Household Change | Newid mewn aelwydydd / Household Change % | Mudo Net / Net Migration | Anheddau / Dwellings | Cyflogaeth / Employment |
| CR Sefydlog / CR Fixed | 42,050 | 22.2% | 19,027 | 23.2% | 2,814 | 1,354 | 1,182 |
| CR Lleihau / CR Reducing | 36,481 | 19.3% | 16,810 | 20.5% | 2,483 | 1,196 | 1,182 |

- Er mwyn cefnogi twf cyflogaeth o +1,182 y flwyddyn ar gyfartaledd, amcangyfrifir ei bod yn ofynnol i gael newid yn y boblogaeth sy'n amrywio rhwng 19.3% a 22.2% yn ystod cyfnod y cynllun.
- Mae hyn yn amlwg yn uwch na'r twf poblogaeth a amcangyfrifir ym mhob un o'r sefyllfaoedd demograffig.

- To support an average employment growth of +1,182 per year, an estimated population change ranges of 19.3% to 22.2% over the plan period is required.
- This is notably higher than the estimated population growth under each of the demographic scenarios.

# Senarios twf poblogaeth a thwf cyflogaeth | Population growth scenarios and job growth




- Wrth ystyried y pedwar senario demograffig, mae'r tabl isod yn nodi nifer y swyddi newydd y gallai cynnydd yn y boblogaeth ei greu.
- Byddai dau o'r senarios demograffig yn cyflawni'r twf economaidd a nodwyd yn y Strategaethau Corfforaethol.
- Mae senario Twf Poblogaeth yn y Tymor Hir yn amcangyfrif y byddai twf yn nifer o swyddi o 5,295 yn ystod cyfnod y cynllun.
- Mae senario Twf Poblogaeth Cyn y Dirwasgiad yn amcangyfrif y byddai twf yn nifer o swyddi o 9,480 yn ystod cyfnod y cynllun.
- Mae senario Twf Poblogaeth yn y Tymor Byr yn amcangyfrif y byddai twf yn nifer o swyddi o 1,890 yn ystod cyfnod y cynllun.

- If the four demographic scenarios were considered, the table indicates the number of new jobs the increase in population could support.
- Two of the demographic scenarios would achieve the economic growth set out in Corporate Strategies.
- The PG Long Term scenario would estimate a job growth of 5,295 jobs during the plan period.
- The PG Pre-Recession scenario would estimate a job growth of 9,480 jobs during the plan period.
- PG Short Term Scenario would estimate a job growth of 1,890 jobs during the plan period.

# Ffactorau i'w hystyried wrth asesu dewisiadau twf | Factors to consider when assessing Growth Options

- Awydd i hyrwyddo strwythur poblogaeth cytbwys;
- Angen am dai fforddiadwy;
- Awydd i gefnogi'r economi gwledig a threfol;
- Effeithiau ar yr Iaith Gymraeg;
- Diogelu a gwella tirwedd ac amgylchedd y Sir;
- Angen sicrhau bod modd cyflawni'r Cynllun (gorgyflenwi a thangyflenwi);
- Y Cyfraddau Adeiladu Presennol.

- Desire to promote a balanced population structure;
- Need for affordable housing;
- Providing opportunity for younger people.
- Desire to support the rural and urban economy;
- Welsh Language Impacts;
- Protect and enhance the County’s Landscape and environment;
- Need to ensure the Plan is deliverable (over and under supply);
- Current Build Rates.

# Diolch | Thank You

**Simon Clement**

Swyddog Blaen Gynllunio
Forward Planning Officer

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council